



**Y WERIN**  
CRONFA DREFTADAETH  
LEGACY FUND  
Ymddiriedolaeth Gwaddol Cyfyngedig PC  
The UW Restricted Endowment Trust

## Ysgoloriaeth Deithio Goffa Gareth Jones

*Darperir yr Ysgoloriaeth hon o'r incwm o Gronfa Goffa a godwyd drwy danysgrifiadau cyhoeddus i beri cofio enw Gareth Richard Vaughan Jones, un o raddedigion Prifysgol Cymru, a fu farw dan law lladron ym Mongolia Fewnol, 12 Awst, 1935.*

1. Dyfernir Ysgoloriaeth Goffa Gareth Jones bob blwyddyn gan UWRET i unigolyn sydd wedi graddio o Brifysgol yng Nghymru, ar yr amod bod ymgeisydd addas ar gael.
2. Bydd yr Ysgoloriaeth yn werth rhyw £3,000<sup>1</sup> a delir mewn dau randaliad. UWRET fydd yn penderfynu cyfnod deiliadaeth yr Ysgoloriaeth.
3. Amcan yr Ysgoloriaeth yw galluogi'r deiliad i deithio mewn gwledydd tramor gyda golwg ar hwyluso astudiaethau ar gysylltiadau cydwladol. Ni fydd rhwymedigaeth i ddilyn cynllun astudio penodol ynghlwm wrth ddyfarniad yr Ysgoloriaeth.
4. Rhoddir blaenoriaeth i unigolyn graddedig sy'n mynegi bwriad i ddilyn neu i barhau cynllun astudio i baratoi ar gyfer gwaith mewn newyddiaduraeth ynghylch materion cydwladol neu i baratoi ar gyfer mynd i wasanaeth y Wladwriaeth neu wasanaethau eraill sy'n ymwneud â materion cydwladol.
5. Rhaid i ddeiliad yr Ysgoloriaeth, pan ddaw deiliadaeth yr ysgoloriaeth i ben, gyflwyno adroddiad ar y gwaith i UWRET.
6. Rhaid i geisiadau am yr Ysgoloriaeth gyrraedd UWRET, Cofrestrfa Prifysgol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NS, ar neu cyn 1 Mehefin.<sup>2</sup>

---

Caiff y rheoliadau hyn eu ffurfio ar sail y gymynrodd wreiddiol. Wrth wneud dyfarniad, gall yr Ymddiriedolwyr ddefnyddio eu doethineb a dehongli'r gymynrodd yn addas i'r cyfnod modern.

Bydd unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at 'Brifysgol/ion yng Nghymru' yn golygu sefydliadau achrededig blaenorol Prifysgol Cymru neu brifysgolion eraill sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru.

1. Bydd union werth y dyfarniad yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.
2. Mewn rhai blynyddoedd gellir estyn y dyddiad cau